Rheol 10(2)(c)

DEDDF TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD 1992

RHEOLAU TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD (GWEITHDREFN CEISIADAU A GWRTHWYNEBIADAU) (CYMRU A LLOEGR) 2006

GORCHYMYN RHEILFFORDD FYNYDD ABERHONDDU (RHEILFFORDD YSGAFN)

# DATGANIAD O NODAU

## Cefndir a hanes cryno y rheilffyrdd

1. Yr ymgeisydd am y Gorchymyn yw Vale of Rheidol Railway Limited. Mae Vale of Rheidol Railway yn gwmni cyfyngedig preifat yng Nghymru a Lloegr o dan y rhif cwmni 02188631 (rhif elusen 1076037), y mae ei swyddfa gofrestredig yng Nghoedlan y Parc, Aberystwyth, Ceredigion, Cymru SY23 1PG.

2. Ymgorfforwyd Vale of Rheidol Railway ym 1987. Cofrestrwyd yr elusen ym 1999. Mae'n cael ei rheoli gan fwrdd cyfarwyddwyr.

3. Diben yr elusen yw hybu addysg y cyhoedd a hybu ymchwil (gan gynnwys cyhoeddi canlyniadau defnyddiol ymchwil o'r fath) mewn materion sy'n ymwneud â rheilffyrdd cul gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r reilffordd gul yng Ngheredigion sy’n ymestyn o Aberystwyth i Bontarfynach ac a elwir yn Reilffordd Cwm Rheidol, a rheilffyrdd neu dramffyrdd eraill sy’n cael eu gweithio neu y gellir eu gweithio ar y cyd â hwnnw a materion yn ymwneud â hanes, adeiladau, tramffyrdd, cerbydau, peiriannau ac offer , gweithrediad hanesyddol, adfer a gweithrediad presennol Rheilffordd Cwm Rheidol.

4. Mae'r elusen yn cyflawni'r amcanion hyn trwy ei phrif weithgaredd, sef gweithredu Rheilffordd Cwm Rheidol fel amgueddfa weithredol. Mae ei phrif amcanion hefyd yn cynnwys cynnal a chadw amgueddfa ar gyfer eitemau o ddiddordeb rheilffyrdd hanesyddol, a gwneud gwaith adfer a chynnal a chadw offer rheilffordd ysgafn.

5. Cafodd Rheilffordd Fynydd Aberhonddu ei llunio fel prosiect treftadaeth dros 40 mlynedd yn ôl pan ddechreuwyd chwilio i ddod o hyd i safle addas i adeiladu a gweithredu rheilffordd stêm gan ddefnyddio locomotifau a gasglwyd o bedwar ban y byd.

6. Dylanwadwyd yn drwm ar y dewis o leoliad ym Merthyr Tudful gan dreftadaeth ddiwydiannol yr ardal. Ar un adeg, Merthyr Tudful oedd y dref gwneud haearn fwyaf yn y byd; roedd y rhan fwyaf o'r rheilffyrdd cynnar iawn yn defnyddio cledrau wedi'u rholio ym melinau Merthyr. Gwelodd Merthyr, ym 1804, y rhediad prawf o locomotif rheilffordd stêm cyntaf y byd a adeiladwyd gan Richard Trevithick.

7. Mae'r rheilffordd bresennol yn rhedeg am tua chwe milltir o'i therfyn deheuol yng ngorsaf Pant, ger hen chwareli Morlais a arferai cyflenwi calchfaen i'r gweithfeydd haearn yn yr ardal, eto drwy rheilffyrdd. Mewn gwirionedd, roedd yna reilffyrdd ym mhobman, i gyd wedi'u hadeiladu i gynnal y gweithgareddau dwys a gynhyrchwyd gan y diwydiant haearn a'r pyllau yn yr ardal. Mae terfynfa ogleddol y reilffordd yn Nhorpantau, yn ddwfn ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan roi mynediad i ddefnyddwyr i ardal sydd fel arall yn anodd ei chyrraedd.

8. Mae'r holl waith gweithredu a chynnal a chadw ar y reilffordd yn cael ei wneud gan staff y reilffordd ei hun. Yn ogystal â'r gwasanaethu a'r atgyweirio arferol, mae locomotifau cyfan yn cael eu hailadeiladu gan ddefnyddio peiriannau sy'n dyddio'n ôl dros 100 mlynedd ond sydd eto'n dal i gyflawni tasg ddefnyddiol. Er enghraifft, adeiladwyd y turn olwyn a'r wasg hydrolig yn y 1890au ac maent yn dal i fod yn weithredol ac yn ddefnyddiol. Mae boeleri newydd yn cael eu cynhyrchu a hyd yn oed locomotifau cyflawn yn cael eu hadeiladu o'r newydd. Adeiladwyd yma yr holl gerbydau a'r wagenni a ddefnyddid.

9. Bu'r ddwy reilffordd mewn perchnogaeth gyffredin am gyfnod ar ôl preifateiddio Rheilffordd Cwm Rheidol ym 1989. O dan hen berchnogaeth y Rheilffyrdd Prydeinig (British Rail), caniatawyd i Reilffordd Cwm Rheidol ddirywio'n sylweddol i'r pwynt lle'r oedd cau yn bosibilrwydd difrifol. Bu Rheilffordd Fynydd Aberhonddu yn llwyddiannus yn ei chais i gaffael Rheilffordd Cwm Rheidol, ac wedi hynny llwyddodd i'w hadfer yn dechnegol ac yn fasnachol i'r pwynt lle llwyddodd unwaith eto i weithredu'n annibynnol ar ôl 1996. Mae'r sylfeini hyn wedi galluogi Rheilffordd Cwm Rheidol i ffynnu. Mae wedi gallu gweithredu rhaglen barhaus o ddatblygiad sy'n parhau hyd heddiw, gydag agoriad diweddar ei hamgueddfa a chanolfan ymwelwyr newydd yng ngorsaf Aberystwyth.

10. Er dad-uno ffurfiol 1996, mae'r ddwy reilffordd wedi parhau i gynnal cysylltiadau agos. Mae’n hysbys bod rheilffyrdd treftadaeth wedi profi anawsterau gweithredol sylweddol ar ôl COVID a materion costau byw. Mae’r rhan fwyaf o’u hincwm yn deillio o gyllid a gynhyrchir gan ymwelwyr, ac nid yw Rheilffordd Fynydd Aberhonddu yn eithriad.

11. Diolch i rodd elusennol hael iawn, mae Rheilffordd Cwm Rheidol bellach mewn sefyllfa i aduno'r ddwy reilffordd ac i gynnal a datblygu Rheilffordd Fynydd Aberhonddu mewn ffordd a fyddai'n llawer anoddach mewn amgylchedd masnachol annibynnol.

Pwrpas y cais

12. Mae'r cais yn ceisio awdurdodi Rheilffordd Cwm Rheidol i weithredu Rheilffordd Fynydd Aberhonddu y mae ei hasedau yn y broses o gael eu caffael. Gan fod Rheilffordd Cwm Rheidol yn elusen gofrestredig ond nid Rheilffordd Fynydd Aberhonddu, mae cyngor cyfreithiol yn awgrymu, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith elusennau, bod y caffaeliad yn parhau drwy brynu'r asedau. Bydd hyn yn arwain at newid technegol yn y gweithredwr, a dyma yn ei dro pam fod angen Gorchymyn Trafnidiaeth a Gweithfeydd.

13. Mae Rheilffordd Fynydd Aberhonddu yn gweithredu ar hyn o bryd o dan awdurdod Gorchymyn Rheilffordd Ysgafn a wnaed ym 1980[1]. Gorchymyn Rheilffordd Ysgafn yw rhagflaenydd cyfundrefn y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd.

14. Nid yw'r cais wedi'i fwriadu mewn unrhyw ffordd i newid natur gweithrediad Rheilffordd Fynydd Aberhonddu, ac ni ofynnir am gymeradwyaeth ar gyfer unrhyw waith. Bwriedir cadw'r rheolwyr a'r staff presennol ac ni fydd y cynnig hwn yn arwain at golli unrhyw brofiad neu arbenigedd gweithredol presennol.

15. Mae'r Ymgeisydd, Vale of Rheidol Railway Limited, yn weithredwr rheilffordd presennol a phrofiadol sy'n gweithredu o dan awdurdod manylion Gorchymyn Rheilffordd Ysgafn sy’n dyddio o 1989[2].

[1] Gorchymyn Rheilffordd Fynydd Aberhonddu (Rheilffordd Ysgafn) 1980, SI 1980 Rhif 671
[2] Gorchymyn Rheilffordd Ysgafn (Diwygiedig) Bwrdd Rheilffyrdd Prydeinig (Cwm Rheidol) 1989, SI 1989 Rhif 599

Y modd caiff y cynnig ei roi ar waith

16. Bydd Vale of Rheidol Railway yn ariannu'r caffaeliad trwy bryniant arian parod. Mae'r caffaeliad o fewn amcanion elusennol Vale of Rheidol Railway. Mae'r amcanion elusennol wedi'u diwygio i hwyluso'r caffaeliad arfaethedig gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau wedi'i roi ar 13 Rhagfyr 2023. Ni fydd angen unrhyw fenthyciadau allanol na chymeradwyaeth gan drydydd parti (ac eithrio'r newidiadau cytundebol arferol sy'n gysylltiedig â newid perchnogaeth asedau).

17. Cytunwyd ar benawdau'r telerau gan y ddwy reilffordd ym mis Gorffennaf 2023 ac mae'r gwerthiant a'r pryniant yn mynd rhagddo ar sail gwerthwr parod – prynwr parod. Yr unig amod materol sy'n effeithio ar gwblhau'r gwerthiant yn derfynol yw cymeradwyo'r Cais hwn, a hebddo ni fyddai'r Ymgeisydd yn gallu rhedeg y reilffordd.

Amserlen a materion eraill

18. Y gobaith oedd y byddai'n bosibl penderfynu ar y Cais hwn mewn pryd ar gyfer dechrau tymor gweithredu 2025 Rheilffordd Fynydd Aberhonddu, a gyhoeddwyd fydd yn dechrau ar 5 Ebrill 2025. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai hyn fod yn optimistaidd erbyn hyn. Gan fod y trosglwyddiad wedi'i fwriadu ac yn gallu digwydd yn ddi-dor o safbwynt gweithredol, mae'r dyddiad gwirioneddol yn llai arwyddocaol.

19. O ystyried cymhwysedd cydnabyddedig Rheilffordd Cwm Rheidol fel gweithredwr ac yn absenoldeb unrhyw waith sy'n gysylltiedig â'r Cais hwn, ni ragwelir unrhyw wrthwynebiadau a allai achosi oedi gyda'r Cais hwn.